Sermon for the Feast of the Presentation – Candlemas
Canon Andrew Loat
2 February 2020, at St Davids Cathedral

(This sermon was preached in Welsh, below, at the 9.30am Parish Service, and in English at the 11.15 Choral Eucharist.)

Luke 2: 22-40

Last week we marked two particularly emotional and, indeed, historic events. There was the 75th anniversary of the liberation of Auschwitz, with many poignant documentaries and interviews on television, radio and items in the press as well as on other media; and little over a day ago the United Kingdom left the European Union after 47 years of active membership.

They were emotional occasions because they aroused hopes and fears and passionate debates, and because, at heart, they were to do with our relationship to others.

And though it may seem surprising, these same things – hopes, fears and our relationship to others – are found in our Gospel today, where the Holy Family encounter two strangers and discover some startling truths.

*

Well it is not for nothing that St. Luke is called the patron saint of artists. He uses words so skilfully to create a picture in our minds of the events and stories that he recounts.

Today he draws us into the impressive Temple in Jerusalem, sponsored by Herod the Great and which was still a work in progress at the time of Jesus' presentation. Then onto this great stage, as it were, Luke brings before us not only the promised Child (just forty days old) with Mary and Joseph, but he also brings into view characters not previously mentioned and who will disappear from the scene as suddenly as they arrived: this is a snapshot of the Holy Family's encounter with two people well advanced in years. Simeon (who is called neither priest nor Levite), and Anna, who was likely the older of the two and who is called a **prophet**.

Now Luke is often criticised for getting himself in a muddle when he sets the scene for this story saying, **When the time came for their purification according to the law of Moses.** The truth is the *Family* did not need purification according to the Law – so-called 'purification' was only for the mother who had given birth. There was in addition a different ceremony of offering a sacrifice for the redemption of their firstborn son, because the Torah says that God requires the life of the firstborn male of man and beast in memory of the awful crisis that finally broke Pharaoh's stubbornness, forcing him to release the Israelites from their slavery in Egypt. But the ceremony of the Purification of a Woman after Childbirth, and the offering made in redemption of the firstborn son, were separate rituals and required different sacrifices. So, in a nutshell, Luke fudged it. Luke – who opens his Gospel by speaking of the care he had taken to ascertain the truths about the life and work of Jesus, speaking to those who really knew the facts. This slip up surprises us; maybe it was because Luke was a Gentile and he saw Jewish things differently, bestowing on them

a different level of importance than Jewish people themselves might have given them. Perhaps he reckoned these were 'only' Jewish distinctions.

But it was, perhaps, Luke's own Gentile background that also gave him the motivation to paint this panoramic Gospel which goes into more detail than any other about the birth, ministry, death and resurrection of Christ. Luke alone records the heart-warming parables of the Lost Sheep, the Lost Coin, the Good Samaritan and the Prodigal Son. Luke shows Jesus interacting with women and with Gentiles because he wants his readers to appreciate that Jesus is the Saviour both of Israel and of all nations.

So here we have this Temple scene early on in the Gospel where all the characters, including the young baby, are Jews - doing Jewish things, Jewish ceremonies; and Luke emphasises they were doing God's will. But the address that Simeon gives opens up a whole new vision of what the *fullness* of God's will looks like. No wonder **the child's father and mother were amazed at what was being said about him.**

We easily think of older people as being stuck in the past and harbouring a nostalgia for the old days, but Simeon is way ahead of the game. He not only welcomes his inevitable and, perhaps, approaching death he also hails a very different future to the one that most Jews were anticipating.

Not for Simeon the triumph of Israel and the humiliation of her enemies, but rather a world where, because of this Child, Jews and Gentiles together would receive divine illumination, divine attention.

Lord, now lettest thou thy servant depart in peace: according to thy word; for mine eyes have seen thy salvation which thou hast prepared before the face of all people: to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel.

*

But Luke's word picture has greater depths to reveal. He has prepared us for what's coming by referring to the amazement felt by Mary and Joseph at the wonderful things, the ecstatic hopes, that were being voiced by these elders holding their child. Maybe we are amazed that *they* should have felt amazed, given the astonishing greeting Mary had received in Nazareth from the angel Gabriel! But that's how Luke portrays it.

How much more shocking, then, must it have been for them when Simeon spoke to Mary about her Child's rejection and about opposition, pain and grief which she herself would share. She must have been stunned; the Archangel hadn't told her this bit.

Then Simeon blessed them and said to his mother Mary, 'This child is destined for the falling and the rising of many in Israel, and to be a sign that will be opposed so that the inner thoughts of many will be revealed - and a sword will pierce your own soul too.'

Such warnings sound all the more poignant to us in this 75th anniversary year of the liberation of Auschwitz. So many stories of families separated, of hearts broken as well as bodies wrecked, of

victims' hopes shattered (and occasionally, hopes fulfilled). **A sword pierced the soul** of so many millions of people because of twisted pride, and hatred and the abuse of power directed against people who were seen as different in some way: affecting Jews, Gipsies, gay people and those with disabilities. As Prince Charles said at one of last week's commemorative services, *It was not only a tragedy for the victims, it was a tragedy for the whole human race.*

So today St. Luke reminds us, proclaims to us, that this Child, this Jewish Child, brought up under the Law of Moses, will yet be the Saviour for all nations – a theme he would develop in his sequel volume, the Acts of the Apostles.

And yet, nations and races so easily want to claim Christ, or the privilege of being chosen by God, for themselves and for those who are like them. Simeon and Anna tell us that *all* are chosen: all are chosen to share in Christ's **light** and **glory**.

As our country breaks away from the European Union, it's more important than ever to remember the humanity we share with all nations, differences included, and our debt to God's grace in Christ who gave his life for all nations, making peace, and so that we all might live as citizens of his Father's Kingdom.

Cyflwyniad Crist

2il o Chwefror 2020, 9.30am Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, Cymun y Plwyf

Luc 2: 22-40

Yr wythnos diwethaf roedden ni'n sylwi ar ddau ddigwyddiad hanesyddol ac emosiynol. Un ohonynt oedd rhyddhau'r carcharorion yng ngwersyll difa Auschwitz gan filwyr Sofietaidd saith deg pump o flynyddoedd yn ôl. Efallai fe welsoch chi eitemau ar y teledu neu ar y radio neu ddarllenoch erthyglau yn y papurau er cof am y cyfnod erchyll hwnnw. A'r digwyddiad arall, hanesyddol ac emosiynol (naill ai yn achlysur o lawenydd neu yn achlysur i dristáu), oedd y Deyrnas Gyfunol yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl bod yn aelod am saith mlynedd a deugain.

Roedden nhw'n achlysuron emosiynol oherwydd eu bod yn cynhyrfu gobeithion ac ofnau a dadleuon angerddol, ac mae'r rheswm yn un amlwg: roedden nhw'n ymwneud â'n perthynas â phobl eraill.

Ac er y gallai fod yn fater o syndod, mae'r un pethau, sef gobeithion, ofnau a'n perthynas ag eraill – yn cael eu gweld yn yr Efengyl heddiw, lle mae'r Teulu Sanctaidd yn cwrdd â dau hen ddieithryn ac yn darganfod rhai gwirioneddau sy'n syndod iddyn nhw.

*

Wel, nid yw'n syndod o gwbl bod Sant Luc wedi'i benodi yn Nawddsant arlunwyr. Mae e'n defnyddio geiriau mor fedrus er mwyn creu darluniau o ddigwyddiadau a straeon yn ein meddyliau ni.

Ac heddiw mae e'n tynnu ein sylw at y Deml yn Jerwsalem, adeilad enfawr a thrawiadol. Herod Fawr oedd yr un a ddechreuodd y gwaith, ac roedd y Deml yn dal i gael ei hadeiladu pan aeth rhieni Iesu yno er mwyn cyflwyno eu Mab ynddi.

Ac wedyn mae Luc yn cyflwyno dau gymeriad newydd inni ar y llwyfan hwn yn y Deml, fel petai – cymeriadau sy ddim wedi cael eu henwi yn y stori cyn y foment hon, a rhai fyddant yn diflannu mor gyflym ag y gwnaethon nhw ymddangos. Dyma *cameo* o'r Teulu Sanctaidd yn cwrdd â dau berson sydd mewn gwth o oedran, sef Simeon (nad oedd e'n nail ai yn Offeiriad neu'n Lefiad) ac Anna sydd yn cael ei disgrifio yn **broffwydes** a hi oedd yr un hynaf, mae'n debyg, oherwydd **yr oedd hon yn oedrannus iawn**, yn ôl yr Efengylwr.

Nawr mae Luc yn cael ei feirniadu am ddrysu dwy ddefod wahanol yma wrth iddo ddweud, **Pan ddaeth amser eu puredigaeth yn ôl Cyfraith Moses.** Mewn gwirionedd, yn ôl y Gyfraith, doedd dim angen arnyn nhw i gyd gael eu puro, heblaw Mair ei hun yn dilyn esgor ar ei phlentyn. Ond roedd defod wahanol, gydag offrymau gwahanol, er mwyn gwaredu y mab cyntafanedig.

Ac mae'n rhywbeth od ac annisgwyl i glywed Luc yn drysu pethau fel hyn oherwydd fe ddechreuodd ei Efengyl gan sôn am y gofal a'r drafferth roedd e wedi'u gwario er mwyn bod yn sicr o'r ffeithiau ynglŷn ag Iesu. Roedd e wedi siarad â phobol oedd yn llygad-dystion lle bynnag roedd hi'n bosib.

Ond efallai bod ei gefndir fel Cenedl-ddyn yn gyfrifol, ac felly fe welai bethau Iddewig yn wahanol i'r ffordd roedd yr Iddewon eu hunain yn eu deall nhw. A yw'n bosib mai yr agwedd ym meddwl Luc oedd, 'Dim ond pethau bach, defodau Iddewig oeddent, heb haeddu llawer o fanylu'?

Ond ei gefndir yn Genedl-ddyn oedd y peth a roes iddo y cymhelliad i greu darlun panoramig o enedigaeth, gweinidogaeth, marwolaeth - a'r atgyfodiad - Iesu oherwydd roedd Luc yn deall bod Iesu yn Waredwr nid i'r Iddewon yn unig ond i'r holl genhedloedd. Ac yn ei Efengyl mae e'n dangos i ni Iesu yn delio ag Iddewon a Chenedl-dynion yn ogystal ag â menywod a dynion. Hefyd Luc yn unig sy'n adrodd wrthym ddamhegion y Ddafad Golledig, y Samariad Trugarog, a'r Mab Afradlon.

Yma, yn un o'r golygfeydd agoriadol yn yr Efengyl, fe welwn gymeriadau sydd yn Iddewon bob un, gan gynnwys y baban. Roeddent yn gwneud pethau Iddewig, yn dilyn defodau Iddewig, ac mae Luc yn pwysleisio eu bod nhw'n gwneudd ewyllys Duw. Ond mae'r geiriau ar wefusau Simeon yn agor ein llygaid i weledigaeth newydd o fwriad ewyllys Duw er lles yr holl fyd yn y Baban hwn. 'Sdim syndod i glywed, **Yr oedd ei dad a'i fam yn rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud amdano.**

Mae'n hawdd inni feddwl bod pobl hŷn yn hiraethu am y gorffennol a'r hen ddyddiau, ond mae'r hen ddyn yma, Simeon, ym mlaen y gad mewn pethau cyfoes a newydd. Mae e'n croesawu'r dyfodol a fydd yn wahanol iawn i ddisgwyliadau y rhan fwyaf o'r Iddewon.

Dyw Simeon ddim yn edrych ymlaen at fuddugoliaeth Israel a darostwng eu gelynion, ond yn hytrach mae e'n sôn am fyd lle, oherwydd y Blentyn hwn, byddai'r Iddewon a'r Cenhedloedd yn derbyn goleuni dwyfol, sylw dwyfol.

Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ôl dy air; canys fy llygaid a welodd dy iachawdwriaeth, yr hon a baratoaist gerbron wyneb yr holl bobl i fod yn oleuni i oleuo'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel.

*

Ond mae gan Luc fwy i ddweud wrthym hefyd. Mae e wedi paratoi'r ffordd trwy ddisgrifio Mair a Joseff yn **rhyfeddu** at eiriau Simeon. (Efallai *ni* yw'r rhai sy'n rhyfeddu eu bod nhw yn rhyfeddu, oherwydd neges ryfeddol yr Archangel wrth gyfarch Mair yn Nasareth, ond dyna sut y mae.)

Ond pa mor frawychus oedd geiriau nesaf Simeon, pan ddechreuodd sôn am bobl yn **gwrthwynebu**'r Plentyn ac wrth iddo siarad am boen a galar iddi hi ei hun. Fe gadwodd Gabriel yn dawel am y pethau hyn!

Yna bendithiodd Simeon hwy, a dywedodd wrth Fair ei fam, "Wele, gosodwyd hwn er cwymp a chyfodiad llawer yn Israel, ac i fod yn arwydd a wrthwynebir; a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf; felly y datguddir meddyliau calonnau lawer."

Mae'r fath rybuddion yn fwy sobreiddiol wrth inni glywed y darlleniad ychydig o ddyddiau ar ôl i'r byd gofio dioddefiadau miliynau o bobl yn Auschwitz a llefydd tebyg o dan y Natsïaid. Mae cymaint o straeon am deuluoedd wedi'u gwahanu, brodyr a chwiorydd wedi'u gwahanu am byth, yn ogystal â thorcalon, y cyrff a gafodd eu dinistrio mewn creulondeb tu hwnt i ddychmygu. Yn wir, **trywanwyd eneidiau** miliynau o bobl **gan gleddyf** trwy falchder gwyrgam a chasineb a cham-ddefnydd pŵer yn erbyn pobl oedd yn cael eu hystyried fel rhai gwahanol, gan gynnwys yr Iddewon, Sipsiwn, pobl hoyw a'r rhai oedd ag anabledd ganddynt. Yng ngeiriau y Tywysog Siarl, *Roedd hynny'n drasiedi i'r dioddefwyr, ond hefyd yn drasiedi i'r holl hil ddynol-ryw.*

I gloi, felly, mae Luc yn datgan trwy dudalennau ei lyfr, gan gynnwys y llith heddiw, y byddai'r Plentyn hwn a gafodd ei fagu o dan Gyfraith Moses yn Waredwr yr holl genhedloedd. A hynny oedd ei thema fawr trwy ei lyfr arall, sef Actau'r Apostolion.

Ond er gwaethaf yr holl addewidion yn yr Efengyl mae wedi bod mor hawdd i genhedloedd a hiliau hawlio Crist ar eu cyfer nhw eu hunain, neu hawlio'r fraint o fod yr etholedigion gan Dduw mewn rhyw ffordd – hwythau, a'r rhai sydd yn debyg iddynt. Ond mae'r neges gan Simeon ac Anna yn dweud wrthym gyda llawenydd bod *pawb* yn etholedig i rannu yn iachawdwriaeth Crist, yn ei **oleuni** a'i **ogoniant.**

Ac wrth i'r genedl hon dorri i ffwrdd o'r Undeb Ewropeaidd mae'n fwy bwysig nag erioed inni gofio'r ddynoliaeth rydym yn ei rhannu gyda'r holl genhedloedd, er gwaethaf ein gwahaniaethau, a chofio hefyd ein dyled i ras Duw yng Nghrist a roddodd ei einioes er mwyn gwneud heddwch a'n croesawu ni i gyd i Deyrnas ei Dad. Amen.